Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Cynllun Datblygu Lleol Amnewid 2023-2038

## Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol

(Tachwedd 2023)

## Cyflwyniad


**1 Cyflwyniad** ... 3

1.1 Cyd-destun ... 3

1.2 Safleoedd Ymgeisiol a Phroses y CDLlA ... 4

1.3 Strwythur y Ddogfen ... 4

**2 Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol** ... 7

2.1 Trosolwg o'r Fethodoleg ... 7

2.2 Cam 1: Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol ... 8

2.3 Cam 2: Paratoi'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol ... 13

2.4 Cam 3: Cyfnod 1 Asesiad Cychwynnol o'r Safleoedd Ymgeisiol ... 13

Cyfnod 1a: Hidlydd Maint Safleoedd ... 14

Cyfnod 1b: Hidlydd Cyfyngiadau Sylfaenol ... 14

Cyfnod 1c: Hidlydd Cyflawnadwyedd ... 15

2.5 Cam 4: Cyfnod 2 – Asesiad Manwl o'r Safleoedd Ymgeisiol - Cais am Wybodaeth Ychwanegol ... 17

Arfarniad Dichonoldeb ... 17

Yr ACI a'r Asesiad o Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol ... 17

2.6 Cam 5: Cyfnod 2 - Asesiad Manwl o'r Safleoedd Ymgeisiol ... 18

Cyfnod 2a: Arfarniad Dichonoldeb ... 18

Ymgysylltu â Darparwyr Seilwaith ... 18

Yr ACI ac Asesiad o Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol ... 19

2.7 Cam 6: Ymgynghori ar y Strategaeth a Ffafrir ... 20

2.8 Cam 7: Ymgynghori wedi'r Strategaeth a Ffafrir ... 20

2.9 Cam 8: Ymgynghori ar y Cynllun Adnau ... 21

2.10 Cam 9: Ymgynghori wedi'r Cynllun Adnau ... 22

**3 Dyddiadau Allweddol ac Ystyriaethau Pwysig cyn Cyflwyno** ... 24

3.1 Cyflwyniad ... 24

3.2. Pryd gall Safleoedd gael eu Cyflwyno? ... 24

3.3. At ba Ddefnyddiau gall Safleoedd gael eu Cyflwyno? ... 24

3.4 Sut mae Cyflwyno Safleoedd? ... 25

Ymgynghori ar y Strategaeth a Ffafrir a'r Cynllun Adnau ... 26

3.5 Ystyriaethau pwysig cyn cyflwyno ... 26

3.6 Cyhoeddusrwydd i Safleoedd Ymgeisiol ... 27

**4 Gwybodaeth sy'n Ofynnol i Gyflwyno** ... 28

**5. Cwblhau'r Ffurflen Safleoedd Ymgeisiol** ... 29

5.1. Adran A: Manylion Cyswllt ... 29

5.2. Adran B: Lleoliad y Safle ... 30

5.3. Adran C: Defnydd Presennol ... 31

Defnydd Presennol o'r Safle ... 31

Tir Glas/Tir Llwyd ........ 31
5.4. Adran D: Defnydd a Gynigir ........ 33
Preswyl ........ 34
Cynllun a Arweinir gan Dai Fforddiadwy ........ 35
Cynlluniau Unigryw a Hunanadeiladu ........ 35
Llety Myfyrwyr ........ 35
Llety Arbenigol ........ 36
Cymunedol ........ 36
Gofal iechyd/Addysg ........ 37
Masnachol/Manwerthu/Cyflogaeth ........ 37
Twristiaeth ........ 37
Ynni Adnewyddadwy ........ 37
Safleoedd Gwastraff – trin a/neu waredu ........ 38
Llety Sipsiwn a Theithwyr ........ 38
Seilwaith ........ 38
Bioamrywiaeth / Seilwaith Gwyrdd / Diogelu ........ 38
Mwynau ........ 40
5.5 Adran E: Hanes Cynllunio ........ 40
5.6 Adran F: Cyfyngiadau Sylfaenol ........ 41
5.7 Adran G: Cyflawnadwyedd ........ 42
5.8 Adran H: Dichonoldeb ........ 46
**6. Safleoedd a Gyflwynir fel rhan o'r Strategaeth a Ffafrir a'r Cynllun Adnau** ........ 47
Atodiad A: Addasrwydd Safleoedd ........ 49
Atodiad B: Darparwyr Seilwaith ........ 51

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cyd-destun

1.1.1. Mabwysiadodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot (CCNPT) ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) ym mis Ionawr 2016. Mae'r Cynllun yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, gan nodi ble, pryd a faint o ddatblygu newydd fydd yn digwydd yn ystod cyfnod y cynllun (2011-2026).

1.1.2. Yn unol ag Adran 69 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 41 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (CDLl) 2005, fel y'u newidiwyd yn 2015, ym mis Ionawr 2020, gan fod pedair blynedd wedi mynd heibio ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, cychwynnodd CCNPT adolygiad o'r CDLl. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Ionawr a Mawrth 2020, cymeradwywyd Adroddiad Adolygu'r CDLl[1] i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020.

1.1.3. Wedi i'r Cyngor gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni (CC) ar gyfer y CDLl Amnewid (CDLlA) ym mis Rhagfyr 2021, ac i Lywodraeth Cymru (LlC) gytuno arno wedyn ym mis Ionawr 2022, dechreuodd y Cyngor baratoi ei CDLlA. Yn unol â'r CC, cynhaliwyd Galwad am Safleoedd rhwng 1 Mawrth 2022 a 31 Mai 2022. Cyflwynwyd cyfanswm o 229 o safleoedd.

1.1.4. Dangosodd canfyddiadau cychwynnol yr Alwad am Safleoedd, ochr yn ochr â gwybodaeth a gafwyd o Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) y Cyngor a'r rhagolygon twf, fod angen canfod tai ychwanegol, yn ogystal â rhai materion dichonoldeb a seilwaith presennol oedd angen mwy o amser i'w goresgyn.

1.1.5. O ystyried hynny, penderfynodd y Cyngor roi'r gorau i baratoi'r CDLlA a dechrau eto. Cymeradwyodd y Cyngor CC newydd ym mis Hydref 2023, a gymeradwywyd wedi hynny gan LlC. Mae'r CC newydd yn amlinellu'r terfynau amser ar gyfer paratoi'r CDLlA newydd, a fydd yn cwmpasu'r cyfnod o 2023-2038, gan gychwyn â Galwad am Safleoedd ym mis Tachwedd 2023.

1.1.6. Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLlA, bydd y Cyngor yn ailystyried pob agwedd ar y CDLl cyfredol, gan gynnwys yr holl bolisïau presennol a dyraniadau safle-

[1] Ar gael yn: https://www.npt.gov.uk/media/13823/ldp-review-report-july-2020.pdf?v=20200709084011

benodol. Bydd y CDLIA yn nodi ble, pryd a faint o dwf fydd yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf (2023-2038).

## 1.2 Safleoedd Ymgeisiol a Phroses y CDLIA

1.2.1. Fel y nodwyd yn y CC, un o'r cyfnodau allweddol wrth baratoi'r CDLIA yw cyflwyno ac ystyried Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer dyraniadau safle-benodol, ar gyfer ystod o fathau o ddatblygiad. Prif egwyddor proses asesu Safleoedd Ymgeisiol yw casglu tystiolaeth addas gan hyrwyddwyr safleoedd i ddangos yn bendant bod safleoedd i'w cynnwys yn y CDLIA yn addas, yn gyflawnadwy ac yn ariannol ddichonadwy.

1.2.2. Yr 'Alwad am Safleoedd Ymgeisiol' yw cam cyntaf ffurfiol cyfnodau paratoi'r CDLIA, wedi i'r CC gael ei gytuno a'i gyhoeddi. Yn unol â CC Hydref 2023, bydd y Cyngor yn gwneud cais ffurfiol am enwebu safleoedd rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2023. Nid oes angen ail-hyrwyddo safleoedd a gyflwynwyd yn ystod yr Alwad am Safleoedd yn 2022 fel rhan o'r alwad ddilynol hon. Fodd bynnag, mae modd darparu mwy o wybodaeth lle bo hynny'n berthnasol.

1.2.3. Fel rhan o'r Alwad, gall hyrwyddwyr safleoedd gyflwyno safleoedd i'w hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y CDLl. Yna caiff safleoedd eu hasesu, a phenderfynir a yw pob safle'n addas, yn gyflawnadwy ac yn ariannol ddichonadwy.

## 1.3 Strwythur y Ddogfen

1.3.1. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno:

- Rhan 1: Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol
- Rhan 2: Canllawiau Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol

1.3.2 Paratowyd y ddogfen i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol, polisi cynllunio cenedlaethol[2] a chanllawiau cenedlaethol[3] fel

[2] Fel y ceir yn Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/future-wales-the-national-plan-2040.pdf ) a Pholisi Cynllunio Cymru (PCC) (Rhifyn 11, 2021) (ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11_0.pdf ).

[3] Fel y nodwyd yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (DPM) (Rhifyn 3, 2020) (ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/development-plans-manual-edition-3-march-2020.pdf )

sy’n briodol. Bydd yn sicrhau bod canfod safleoedd addas i’w dyrannu wedi’i seilio ar asesiad cadarn, tryloyw a chredadwy o’r tir a gyflwynwyd.

# Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol

# 2 Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol

## 2.1 Trosolwg o'r Fethodoleg

2.1.1 Mae'r Tabl isod yn rhoi trosolwg o Fethodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol a'r terfynau amser a ragwelir ar gyfer pob cam.

*Tabl 1: Trosolwg Safleoedd Ymgeisiol*

| | |
|---|---|
| Cam 1: Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol | Tachwedd - Rhagfyr 2023 |
| Cam 2: Paratoi'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol | Tachwedd 2023 - Hydref 2024 |
| Cam 3: Cyfnod 1 Asesiad Cychwynnol o'r Safleoedd Ymgeisiol | Ionawr - Chwefror 2024 |
| Cam 4: Cyfnod 2 Asesiad Manwl o'r Safleoedd Ymgeisiol – Cais am Wybodaeth Ychwanegol | Ionawr - Hydref 2024 |
| Cam 5: Cyfnod 2 Asesiad Manwl o'r Safleoedd Ymgeisiol | Chwefror - Hydref 2024 |
| Cam 6: Y Strategaeth a Ffafrir, gan gynnwys ymgynghori ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol | Tachwedd - Rhagfyr 2024 |
| Cam 7: Ymgynghori wedi'r Strategaeth a Ffafrir Adolygu'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Ionawr - Gorffennaf 2025 |
| Cam 8: Ymgynghori ar y Cynllun Adnau | Tachwedd - Rhagfyr 2025 |
| Cam 9: Ymgynghori wedi'r Cynllun Adnau Adolygu'r Wybodaeth a Gyflwynwyd | Ionawr - Ebrill 2026 |

2.1.2 Yn unol â'r canllawiau cenedlaethol (DPM (Rhifyn 3, 2020, Paragraff 3.65)), bydd y Cyngor yn cynnal proses asesu dros ddau gyfnod:

- Cyfnod 1: Asesiad Cychwynnol o'r Safleoedd Ymgeisiol
- Cyfnod 2: Asesiad Manwl o'r Safleoedd Ymgeisiol

2.1.3. Er mwyn bod mor effeithiol â phosibl, bydd yr Asesiad o'r Safleoedd Ymgeisiol yn ymgorffori'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol i osgoi dyblygu'r asesiad. Cynhwyswyd set o ddangosyddion cynaliadwyedd a fireiniwyd a system sgorio dryloyw yn Adroddiad Rhychwantu'r ACI (2023), fel bod modd i ddarpar hyrwyddwyr safleoedd ystyried perfformiad tebygol eu safle ymgeisiol yn erbyn y meini prawf asesu.

2.1.4 Yn ogystal â'r dangosyddion cynaliadwyedd hyn, bydd angen cymryd nifer o feini prawf eraill sy'n ymwneud ag addasrwydd y safle i ystyriaeth wrth ddewis safleoedd. Darperir y rhain yn Atodiad A.

## 2.2 Cam 1: Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol

**Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol yw'r adeg briodol i gyflwyno safleoedd y gellid eu cynnwys yn y Cynllun.**

2.2.1 Trwy'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol, bydd y Cyngor yn gwahodd datblygwyr, tirfeddianwyr, hyrwyddwyr safleoedd, cyrff cyhoeddus, darparwyr gwasanaeth ac eraill syd â diddordeb mewn tir i gyflwyno safleoedd y maen nhw'n dymuno iddyn nhw gael eu hystyried fel dyraniad posibl ar gyfer naill ai eu datblygu neu eu diogelu.

2.2.2 Gellir cyflwyno safleoedd at amrywiaeth o ddefnyddiau, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:

- Tai;
- Cyflogaeth;
- Cyfleusterau cymunedol;
- Twristiaeth;
- Seilwaith Gwyrdd;
- Gwastraff;

- Addysg;
- Gofal cymdeithasol;
- Darparu lleiniau i Sipsiwn a Theithwyr;
- Manwerthu;
- Hamdden;
- Ynni Adnewyddadwy;
- Bioamrywiaeth;
- Seilwaith Trafnidiaeth;
- Mwynau; a
- Diogelu

2.2.3 Fel rhan o'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol, bydd gofyn bod pawb sy'n hyrwyddo safle yn cyflwyno Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol, y dylid ei llenwi mor llawn ac mor gywir â phosibl. Bydd y ffurflen ar gyfer cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol ar gael ar wefan y Cyngor (www.npt.gov.uk/cs) ac yn y lleoliadau Adnau.

**Sylwer y bydd methu â chyflwyno Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol a gwblhawyd yn briodol yn golygu nad yw'r Safle Ymgeisiol yn cael ei gofrestru.**

2.2.4 Yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, bydd gofyn bod pawb sy'n hyrwyddo safle yn darparu gwybodaeth am ddichonoldeb.

2.2.5 Bydd gofyn bod safleoedd preswyl a rhai a arweinir gan gyflogaeth sydd ar gyfer 50 neu fwy o dai neu 1.0ha+ yn cyflwyno arfarniad dichonoldeb lefel uchel, gan ddefnyddio Model Dichonoldeb Datblygu (DVM) Canolbarth a De-orllewin Cymru, a datganiad dichonoldeb lefel uchel i gyd-fynd â hynny.

2.2.6 Bydd gofyn bod safleoedd preswyl a chyflogaeth o dan y trothwyon uchod yn

cwblhau holiadur dichonoldeb, a fydd ar gael ar wefan y Cyngor (www.npt.gov.uk/sy) ac mewn lleoliadau adnau. Bydd gofyn darparu gwybodaeth bellach, gan gynnwys DVM cyflawn a Datganiad Dichonoldeb Lefel Uchel, yn ddiweddarach yn y broses, fel rhan o Asesiad Cyfnod 2 o'r Safleoedd Ymgeisiol (gweler y nodiadau cyfarwyddyd ynghylch dichonoldeb i gael rhagor o wybodaeth).

2.2.7 Dylai safleoedd sy'n cael eu hyrwyddo at ddefnyddiau eraill ddarparu swm cymesur o dystiolaeth ynghylch dichonoldeb. Bydd gofyn darparu arfarniad dichonoldeb manwl yn ddiweddarach yn y broses asesu.

2.2.8 Cyflwynir y ffioedd ar gyfer y DVM isod:

- Safleoedd ag 1-9 o unedau preswyl: £195
- Safleoedd â 10-50 o unedau preswyl: £345
- Safleoedd â 51-100 o unedau preswyl: £495
- Safleoedd â 101+ neu fwy o unedau preswyl: £ i'w gytuno gyda'r Cyngor yn ôl maint a chymhlethdod y cynnig, ond heb fod yn llai na £495
- Cyflogaeth: £ i'w gytuno gyda'r Cyngor yn ôl maint a chymhlethdod y cynnig, ond heb fod yn llai na £495[4].

2.2.9 Bydd gofyn bod hyrwyddwyr safleoedd sy'n cynnig 50 neu fwy o unedau preswyl neu 1.0ha neu fwy o dir cyflogaeth dalu'r ffioedd llawn yn ystod yr Alwad am Safleoedd. Dylai hyrwyddwyr safleoedd ddefnyddio'r rhagdybiaethau dichonoldeb y cytunwyd arnynt gan grŵp rhanddeiliaid dichonoldeb y Cyngor (fel y nodir yn y Nodiadau Cyfarwyddyd ynghylch Dichonoldeb) a darparu tystiolaeth ategol lle na ddefnyddiwyd y rhagdybiaethau.

2.2.10 Lle bo gofyn, i gael copi o'r DVM, dylai hyrwyddwyr safleoedd gysylltu â'r Cyngor cyn cyflwyno eu safleoedd er mwyn sicrhau copi o'r DVM safle-

[4] Y ffi cychwynnol ar gyfer defnyddiau Cyflogaeth a Safleoedd o 100 neu fwy o unedau preswyl fydd £495. Gall ffioedd ychwanegol fod yn ofynnol yn ôl maint a chymhlethdod y cynnig. Trafodir unrhyw ffi ychwanegol gyda hyrwyddwr y safle cyn gwneud gwaith pelllach.

benodol trwy e-bost (LDP@npt.gov.uk), gan ddarparu rhif ffôn i'r Cyngor ddychwelyd yr alwad a chymryd tâl. Ar ôl derbyn y tâl, bydd y Cyngor yn cyflwyno'r DVM safle-benodol, y templed ar gyfer datganiad dichonoldeb lefel uchel, a chyfarwyddiadau defnydd.

2.2.11 Sylwer y bydd y Cyngor, yn dilyn trafodaethau gyda Thîm Cyfreithiol y Cyngor a'r diwydiant datblygu, yn unol â'r canllawiau cynllunio cenedlaethol (DPM, Rhifyn 3, 2020, Paragraff 5.95), yn defnyddio dull 'llyfr agored' o ymdrin â gwybodaeth ddichonoldeb a gyflwynwyd, er mwyn sicrhau tryloywder y dystiolaeth.

2.2.12 Sylwer nad yw'r ffi yn cynnwys unrhyw lwfansau ar gyfer trafodaethau rhwng Swyddogion y Cyngor a hyrwyddwyr safleoedd. Er y bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad lefel uchel o briodoldeb yr wybodaeth a gyflwynwyd, bydd hynny ar gael fel rhan o'r dystiolaeth ddichonoldeb yn yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir yn unig. Ni fydd hyn nac adroddiad dichonoldeb manwl yn cael eu darparu i hyrwyddwr y safle.

2.2.13 Er mwyn i'r dystiolaeth uchod ynghylch dichonoldeb fedru cael ei chwblhau, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol (DPM (Argraffiad 3, 2020, Paragraff 3.50)), mae'r Cyngor wedi paratoi Nodiadau Cyfarwyddyd ynghylch Dichonoldeb, sydd ar gael ar wefan y Cyngor: [www.npt.gov.uk/sy](http://www.npt.gov.uk/sy) .

**Sylwer:**

- **Bydd methiant i ddarparu gwybodaeth ddigonol ynghylch dichonoldeb, fel y nodir uchod, yn golygu y bernir bod y safle'n annichonadwy, ac o ganlyniad ni fydd yn symud ymlaen ymhellach yn y broses o asesu Safleoedd Ymgeisiol.**

- **Bydd y Cyngor yn derbyn arfarniadau dichonoldeb ar gyfer safleoedd â 50+ o unedau preswyl neu 1ha+ o ddefnyddiau cyflogaeth a gyflwynwyd gan ddefnyddio'r DVM.**

- **Mae pob copi o'r DVM yn safle-benodol.**

- **Ni fydd adroddiad dichonoldeb manwl yn cael ei ddarparu ar gyfer hyrwyddwyr safleoedd.**

- **Nid yw'r ffioedd yn darparu ar gyfer cwblhau'r model gan Swyddogion y Cyngor nag ymgysylltiad rhwng swyddogion y Cyngor a hyrwyddwyr safleoedd ynghylch rhagdybiaethau/cwblhau'r model etc. Defnyddir nodiadau cyfarwyddyd manwl, canllaw i ddefnyddwyr a fideos i gynorthwyo wrth gwblhau'r model.**

2.2.14 Dylid darparu unrhyw astudiaethau ac adroddiadau eraill a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i gefnogi'r Safleoedd Ymgeisiol a gynigir. Dylai hyn fod yn gymesur â natur a graddfa'r datblygiad a gynigir. Bydd yr wybodaeth a gynigir yn helpu i alluogi'r Cyngor i asesu'r canlynol:

- A yw'r safle mewn lleoliad **cynaliadwy** ac a oes modd ei ryddhau o bob cyfyngiad sylfaenol

- A oes modd **cyflawni**'r safle

- A yw'r safle'n **ddichonadwy**

2.2.15 Ceir gwybodaeth ynghylch sut mae cyflwyno safleoedd, amserlenni ar

gyfer cyflwyno, a chanllawiau pellach ar sut mae cwblhau'r Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol yn Adran Ganllawiau'r ddogfen hon.

## 2.3 Cam 2: Paratoi'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol

2.3.1 Ar ôl i safleoedd gael eu cyflwyno ac i'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol gael ei chau, bydd y Cyngor yn paratoi Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol. Bydd y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn cofnodi'r holl safleoedd a gyflwynwyd, gyda'r wybodaeth ganlynol:

- Ardal ofodol
- Ward
- Rhif y safle ymgeisiol (e.e. RLDP/AMV/0001)
- Enw'r safle ymgeisiol
- Arwynebedd y safle (ha)
- Defnydd cyfredol (defnydd presennol, tir glas/llwyd)
- Defnydd arfaethedig
- Hyrwyddwr y safle
- Map Arolwg Ordnans (OS) yn nodi manylion ffiniau'r safle

**Sylwch nad yw cynnwys safle ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn arwydd o ymrwymiad i'w addasrwydd i'w gynnwys yn y cynllun.**

## 2.4 Cam 3: Cyfnod 1 Asesiad Cychwynnol o'r Safleoedd Ymgeisiol

2.4.1 Bydd Cyfnod 1 - Asesiad Cychwynnol o'r Safleoedd Ymgeisiol, yn cynnwys yr asesiad pen desg tri chyfnod canlynol o'r holl safleoedd a gyflwynwyd.

*Tabl 2: Cyfnod 1 Safleoedd Ymgeisiol Cychwynnol – Hidlydd Asesu Cyfnod 1*

| |
|---|
| Cyfnod 1a: Hidlydd Maint Safleoedd |
| Cyfnod 1b: Hidlydd Cyfyngiadau Sylfaenol |
| Cyfnod 1c: Hidlydd Cyflawnadwyedd |

**Cyfnod 1a: Hidlydd Maint Safleoedd**

2.4.2. I gychwyn bydd safleoedd preswyl yn cael eu hidlo yn ôl a ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer maint safle, sef 10 uned[5]. Ni chaniateir dyrannu safleoedd o dan y trothwy hwn ar gyfer datblygu; serch hynny, byddant yn dal i gael eu cynnwys ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol ac yn cael eu defnyddio i lywio'r dadansoddiad o safleoedd annisgwyl, yr asesiad o gapasiti trefol a'r adolygiad o ffiniau aneddiadau.

2.4.3 Ni fydd safleoedd a gyflwynir at ddefnyddiau eraill yn cael eu hidlo yn ôl eu maint. Yn hytrach, bydd y Cyngor yn defnyddio'i ddisgresiwn ynghylch a yw dyrannu'n briodol. Nodir manylion y dull a ddefnyddir yn glir yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol.

Cyfnod 1b: Hidlydd Cyfyngiadau Sylfaenol

2.4.4 Yna defnyddir meddalwedd GIS i hidlo safleoedd yn ôl a oes ganddynt unrhyw rai o'r cyfyngiadau sylfaenol canlynol:

- Mae'r safle'n gorgyffwrdd â'r canlynol, neu oddi mewn iddynt:
    - Ramsar; a/neu
    - Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA); a/neu
    - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA); a/neu
    - Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG); a/neu
    - Dir Amaethyddol Dosbarth 1 (ALC); a/neu

[5] Mae hyn yn unol â'r trothwy yn y CDLl cyfredol; trothwyon y cytunwyd arnynt yn flaenorol fel rhan o'r gwaith JHLAS; ac mae'n adlewyrchu caniatâd cynllunio a roddwyd ers dechrau cyfnod y Cynllun.

- Heneb Gofrestredig (SM); a/neu
- Barc a Gerddi Hanesyddol; a/neu
- Mae'n ddatblygiad a gynigir gan y sector preifat ar dir comin[6]; a/neu
- Mae'r safle'n cynnig datblygiad hynod fregus (TAN15 (Rhagfyr 2021)) oddi mewn i Barth Llifogydd 3[7].

2.4.5 Os yw'r cyfyngiad yn rhan o ffiniau'r safle, rhoddir ystyriaeth bellach i'r mater i weld a ellid lliniaru effaith y datblygiad.

### Cyfnod 1c: Hidlydd Cyflawnadwyedd

2.4.6 Yna caiff safleoedd eu hidlo yn ôl eu cyflawnadwyedd.

2.4.7 Rhoddir ystyriaeth yn ôl:

- A yw'r safle cyfan yn cael ei hyrwyddo i'w ddatblygu;
- A yw'r safle sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer datblygu yn eiddo i fwy nag un tirfeddiannwr, ac a yw'r holl dirfeddianwyr yn hyrwyddo'r safle ar gyfer datblygu o'r math ac ar y raddfa a ragwelir;
- A yw'r safle'n cael ei hyrwyddo gan y tirfeddianw(y)r presennol neu ar eu rhan. Neu a oes gan hyrwyddwr y safle/eu cleient gytundeb opsiwn neu gyfatebol i brynu'r safle gan y tirfeddianw(y)r);
- A oes unrhyw gyfyngiadau ar ddatblygu megis lleiniau pridwerth neu gyfamodau nad ydynt yn cael eu datrys/dileu;
- A fydd y safle'n cael ei gynnig i'w ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun; A ddarparwyd gwybodaeth am ddichonoldeb i gyd-fynd â chyflwyno'r Safle Ymgeisiol; ac

[6] Yn absenoldeb gwybodaeth bellach am gyflawnadwyedd, mae'n debygol na fydd y cynnig yn ddichonadwy. Ni fydd safleoedd a hyrwyddir gan CCNPT ar dir comin yn cael eu heithrio ar y sail hon, gan fod eu perchnogaeth gyhoeddus yn darparu mecanwaith cyflawni.
[7] At ddibenion cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol, bydd y Cyngor yn defnyddio TAN15 (Rhagfyr 2021) a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, yn unol â'r dull gweithredu y manylwyd arno yn y Llythyr gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 15 Rhagfyr 2021.

- Os yw’r safle mewn perchnogaeth gyhoeddus, a yw wedi cael ei nodi mewn strategaeth waredu a gyhoeddwyd a/neu trwy benderfyniad gan y Cyngor os yw’r tir i gael ei gadw/werthu gan y Cyngor.

2.4.8 Mae’r canllawiau cenedlaethol (DPM (Rhifyn 3, 2020, Tabl 18) yn nodi’n eglur na ddylai dyraniadau CDLl presennol gael eu ‘treiglo ymlaen’ yn awtomatig i Gynlluniau Datblygu Lleol Amnewid. Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, bydd angen bod newid sylweddol mewn amgylchiadau i ddangos bod modd cyflawni a chyfiawnhau safleoedd cyn eu cynnwys yn y CDLlA. Bydd angen i safleoedd presennol a ddyrannwyd sydd heb gael eu hyrwyddo eisoes fel rhan o Alwad 2022 am Safleoedd gael eu hailgyflwyno a’u hailwerthuso fel ran o’r broses hon o asesu Safleoedd Ymgeisiol; dangos eu bod yn gynaliadwy ac yn gydnaws â’r strategaeth a ffafrir (pan gaiff ei llunio); a darparu tystiolaeth glir eu bod yn gyflawnadwy, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch beth sydd wedi newid ers y dyraniad blaenorol/sut mae cyfyngiadau blaenorol ar gyflawni wedi cael eu goresgyn. Os yw’r safle wedi cael ei ddyrannu’n flaenorol yn CDLl presennol CNPT, fel rhan o’r hidlydd cyflawnadwyedd hwn, rhoddir ystyriaeth i’r canlynol:

- A yw hyrwyddwr y safle wedi darparu esboniad clir ar gyfer pam nad yw’r safle wedi cael ei gyflwyno ar gyfer datblygu hyd yma, a chyfiawnhad ynghylch sut a phryd bydd hynny’n newid wrth symud ymlaen (gan gynnwys gwybodaeth fanwl am ddichonoldeb lle bo angen); ac

- A oes tystiolaeth wedi cael ei darparu i ddangos bod ymrwymiad clir i gyflwyno’r safle yn ystod cyfnod y Cynllun, gan gynnwys, lle bo hynny’n berthnasol, lifoedd ariannu a nodwyd/neilltuwyd.

2.4.9 Adroddir crynodeb o ganfyddiadau’r asesiad Cyfnod 1 yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol a gyhoeddir fel rhan o’r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir.

## 2.5 Cam 4: Cyfnod 2 – Asesiad Manwl o'r Safleoedd Ymgeisiol - Cais am Wybodaeth Ychwanegol

### Arfarniad Dichonoldeb

2.5.1 Fel rhan o Asesiad Manwl Cyfnod 2 o Safleoedd Ymgeisiol, bydd y Cyngor yn cysylltu â hyrwyddwyr safleoedd a arweinir gan dai a chyflogaeth a hidlwyd sy'n llai na 50 o unedau preswyl ac 1.0ha ac yn gofyn iddynt dalu'r ffi cyfan o ran arfarniad dichonoldeb a chyflwyno asesiad dichonoldeb manwl (arfarniad dichonoldeb plws datganiad gyda thystiolaeth i gyfiawnhau rhagdybiaethau) gan ddefnyddio'r DVM a rhagdybiaethau cytunedig y grŵp llywio ar ddichonoldeb (neu dystiolaeth i gyfiawnhau gwerthoedd amgen).

2.5.2 Fel y nodwyd uchod, sylwer y bydd y Cyngor, yn dilyn trafodaeth gyda Thîm Cyfreithiol y Cyngor a'r diwydiant datblygu, yn unol â chanllawiau cynllunio cenedlaethol (DPM, Rhifyn 3, 2020, Paragraff 5.95), yn defnyddio dull gweithredu 'llyfr agored' i sicrhau bod y dystiolaeth yn dryloyw.

**Sylwer na fydd y Cyngor yn derbyn arfarniadau dichonoldeb manwl a gyflwynir gan ddefnyddio modelau dichonoldeb eraill, ac y bydd methiant i ddarparu arfarniad dichonoldeb manwl yn golygu bod y safle'n cael ei hidlo allan o'r Asesiad Cyfnod 2.**

### Yr ACI a'r Asesiad o Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol

2.5.3 Yn dibynnu ar lefel yr wybodaeth a ddarparwyd yn ystod yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol, gall y Cyngor gysylltu â hyrwyddwyr safleoedd a gofyn iddyn nhw gyflwyno mwy o wybodaeth, fel bod modd cwblhau'r ACI a'r Asesiad o Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol. Bydd hyn yn derbyn sylw fesul safle. Gall hyn gynnwys gwybodaeth megis arolygon cyflwr tir ac asesiadau/datganiadau trafnidiaeth. Sylwer y bydd methiant i ddarparu gwybodaeth sy'n ddigon manwl yn golygu na chaiff y safle ei ystyried ymhellach yn y broses asesu.

## 2.6 Cam 5: Cyfnod 2 - Asesiad Manwl o'r Safleoedd Ymgeisiol

2.6.1 Cynhelir Asesiad Safleoedd Ymgeisiol Cyfnod 2 o'r holl safleoedd a hidlwyd. Bydd Asesiad Safleoedd Ymgeisiol Cyfnod 2 yn cynnwys:

*Tabl 3: Hidlydd Asesu Cam 1 Safleoedd Ymgeisiol Cychwynnol Cam 1*

| |
|---|
| Cyfnod 2a: Arfarniad dichonoldeb; |
| Cyfnod 2b: Asesiad ACI (ansoddol a meintiol) ac asesiad o Addasrwydd y Safle Ymgeisiol; a |
| Chyfnod 2c: Ymgysylltu â darparwyr seilwaith. |

### Cyfnod 2a: Arfarniad Dichonoldeb

2.6.2 Bydd y Cyngor yn adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd, gan gymryd i ystyriaeth ffactorau megis:

- Ydy'r arfarniad dichonoldeb a gyflwynwyd yn dangos bod math a maint y datblygiad a gynigir yn ariannol ddichonadwy?
- Ydy'r arfarniad dichonoldeb a gyflwynwyd yn defnyddio'r rhagdybiaethau mae'r Cyngor wedi'u darparu (er enghraifft o ran tai fforddiadwy/seilwaith/costau polisi eraill)? Os nad ydyw, a ddarparwyd tystiolaeth i gyfiawnhau pam y defnyddiwyd rhagdybiaethau gwahanol? Ac ydy'r Cyngor o'r farn bod yr arfarniad dichonoldeb, gan gynnwys y rhagdybiaethau, a gyflwynwyd yn briodol?
- Os yw'r safle'n ariannol ddichonadwy, a yw hyrwyddwr y safle wedi cadarnhau bod digon o werth/enillion ar gael yn y datblygiad i ddarparu elw digonol i'r datblygwr?
- Os nad yw'r safle'n ariannol ddichonadwy, oes gan hyrwyddwr y safle/berchennog y tir fynediad at unrhyw fecanweithiau ariannu neu fodel cyflawni amgen a fyddai'n gwneud y safle'n ddichonadwy?

### Ymgysylltu â Darparwyr Seilwaith

2.6.3 Bydd y Cyngor yn ymgysylltu â'r darparwyr seilwaith a geir yn Atodiad C i ganfod cyfyngiadau seilwaith.

2.6.4 Wedi ymgysylltu â darparwyr seilwaith, gall y Cyngor ofyn am ragor o wybodaeth gan hyrwyddwyr safleoedd. Bydd hyn yn safle-benodol a gall gynnwys trafodaethau ynghylch dulliau lliniaru a gwaith pellach ar ddichonoldeb.

### Yr ACI ac Asesiad o Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol

2.6.5 Yna bydd y Cyngor yn cynnal ACI manwl ac Asesiad o Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer pob safle a hidlwyd. Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad C ac Atodiad A yn Adroddiad Rhychwantu ACI 2023, gan gynnwys meini prawf asesu manwl ar gyfer safleoedd.

2.6.6 Cymerir y ffactorau canlynol i ystyriaeth fel rhan o'r ACI cyffredinol a'r asesiad o addasrwydd safleoedd:

- A luniwyd ACI manwl?
- A arfarnwyd y safle yn erbyn meini prawf Asesu Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol, ac a fernir ei fod yn addas i'w ddatblygu?
- Ydy'r safle'n cyfrannu at gyflawni amcanion cyffredinol y Cynllun? h.y. Ydy'r safle'n cael effaith gadarnhaol yng nghyd-destun ei amgylchedd, mewn perthynas ag amcanion yr ACI?
- A nodwyd unrhyw gyfyngiadau o ran seilwaith? Os nodwyd cyfyngiadau seilwaith, a gynigiwyd mesurau lliniaru sy'n dderbyniol, y mae modd eu cyflawni, ac nad ydynt yn effeithio ar ddichonoldeb cyffredinol y safle, ac a gadarnhawyd hynny gan hyrwyddwr y safle?
- Ydy'r Cyngor wedi'i fodloni nad yw'r safle'n groes i'r ACI ac amcanion y Cynllun, a bod modd lliniaru unrhyw gyfyngiadau seilwaith mewn modd dichonadwy?

2.6.7 Adroddir crynodeb o ganfyddiadau'r asesiadau Cyfnod 2 yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol a gyhoeddir fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir.

## 2.7 Cam 6: Ymgynghori ar y Strategaeth a Ffafrir

2.7.1 Fel rhan o’r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir, bydd y cyhoedd a rhanddeiliaid yn cael cyfle i wneud y canlynol:

- Gwneud sylwadau ar unrhyw bolisïau a safleoedd a gynigir ar yr adeg hon;
- Nodi pa Brofion Cadernid mae’r cynllun yn methu, yn eu barn nhw;
- Cyflwyno sylwadau yn gofyn am newid ffiniau unrhyw ddyraniadau a gynigiwyd;
- Cynnig dileu neu ychwanegu safleoedd; a
- Gwneud sylwadau ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol, gan gynnwys yr ACI Cychwynnol a’r Asesiad o Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol.

2.7.2 Bydd gofyn bod safleoedd sy’n cael eu hyrwyddo trwy’r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir yn mynd trwy Asesiad Cychwynnol Safleoedd Ymgeisiol Cyfnod 1 ac Asesiad Manwl Safleoedd Ymgeisiol Cyfnod 2, ac yn cael eu halinio â’r Strategaeth a Ffafrir (gweler y bennod ar y Strategaeth a Ffafrir a Safleoedd a Gynigir ar gyfer y Cynllun Adnau i gael rhagor o wybodaeth). Darperir rhagor o wybodaeth yn ystod yr Ymgynghoriad.

## 2.8 Cam 7: Ymgynghori wedi’r Strategaeth a Ffafrir

2.8.1 Wedi’r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir, bydd y Cyngor yn:

- Ystyried y sylwadau a ddaeth i law (gan gynnwys y rhai sy’n hyrwyddo safleoedd newydd a’r rhai sy’n gwneud sylwadau ar y Profion Cadernid);
- Adolygu asesiadau Cyfnod 1 a Chyfnod 2 o safleoedd sydd newydd eu cyflwyno a safleoedd y derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol ar eu cyfer;
- Diweddaru ac ailgyhoeddi’r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol i gynnwys manylion safleoedd ychwanegol a gyflwynwyd a gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd;
- Cynnal ACI ac Asesiad Pellach o Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol lle bo

gofyn[8];

- Nodi safleoedd i'w dyrannu yn y Cynllun Adnau;
- Paratoi'r dyraniadau safle terfynol; a
- Pharatoi'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol a fydd yn cynnwys atodlen o sylwadau cysylltiedig â safleoedd unigol ac awgrymiadau ar gyfer safleoedd newydd i'w dyrannu.

## 2.9 Cam 8: Ymgynghori ar y Cynllun Adnau

2.9.1 Mae'r ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau yn gyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid:

- Wneud sylwadau ar y polisïau a'r safleoedd a gynigiwyd yn y Cynllun Adnau;21
- Nodi pa Brofion Cadernid mae'r Cynllun yn methu â'u cyflawni, yn eu barn nhw;
- Gwneud sylwadau ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol a ddiweddarwyd, yr Adroddiad Addasrwydd Cychwynnol ar yr ACI a'r Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol (gan gynnwys Asesiad Cyfnod 1 a Chyfnod 2 o'r Safleoedd Ymgeisiol), yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol ac unrhyw wybodaeth gefndir arall sy'n berthnasol;
- Cyflwyno sylwadau sy'n gofyn am newid y ffiniau a gynigiwyd ar gyfer dyraniadau a therfynau aneddiadau; a
- Chynnig dileu safleoedd neu ychwanegu rhai newydd.

2.9.2 Bydd gofyn bod safleoedd sy'n cael eu hyrwyddo trwy'r ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau yn mynd trwy Asesiad Cychwynnol Safleoedd Ymgeisiol Cyfnod 1 ac Asesiad Manwl Safleoedd Ymgeisiol Cyfnod 2, ac yn cael eu halinio â'r Strategaeth a Ffafrir (gweler y bennod ar y Strategaeth a Ffafrir a

[8] Gan y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith technegol wedi'i gwblhau wrth baratoi'r ACI Cychwynnol a'r Adroddiad ar Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol, dim ond os bydd angen y caiff yr Adroddiad ei ddiweddaru i gynnwys: canlyniadau asesu unrhyw opsiynau diwygiedig neu newydd o ganlyniad i ymgynghoriad cyhoeddus; unrhyw waith pellach ISA ac Asesiad o Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol a gyflawnwyd (er enghraifft lle mae data newydd wedi'i ryddhau); unrhyw sylwadau a dderbyniwyd ar yr ACI Cychwynnol a'r Adroddiad ar Addasrwydd Safleoedd Posib yn y Strategaeth a Ffefrir; ac unrhyw bolisïau newydd a ychwanegwyd/diwygiwyd.

Safleoedd a Gynigir ar gyfer y Cynllun Adnau i gael rhagor o wybodaeth).

## 2.10 Cam 9: Ymgynghori wedi'r Cynllun Adnau

2.10.1 Wedi'r ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau, bydd y Cyngor yn:

- Ystyried yr holl sylwadau a wnaed yn briodol[9], gan gynnwys unrhyw safleoedd newydd a gynigiwyd, ac yn dod i gasgliad ynghylch a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Cynllun; ac yn
- Ymgymryd â lefel briodol o asesu i ganiatáu ymateb cywir ac effeithiol i unrhyw gwestiynau posibl gan yr Arolygydd penodedig adeg yr archwiliad.

2.10.2 Cofnodir copi o'r holl sylwadau a wnaed yn briodol, canfyddiadau unrhyw asesiad a gynhaliwyd, a barn ffurfiol y Cyngor ar y safleoedd a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori.

[9] Gweler y CC i gael rhagor o wybodaeth ynghylch beth yw sylwadau 'a wnaed yn briodol'

# Nodiadau Cyfarwyddyd

# 3 Dyddiadau Allweddol ac Ystyriaethau Pwysig cyn Cyflwyno

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Mae'r rhan hon o'r ddogfen yn darparu'r canllawiau canlynol ar gyfer cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol. Darperir gwybodaeth ynghylch y canlynol:

- Dyddiadau allweddol ac ystyriaethau pwysig cyn cyflwyno;
- Gwybodaeth sy'n ofynnol i gyflwyno;
- Canllawiau ar sut mae llenwi'r Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol; a'r Wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer safleoedd a gyflwynwyd naill ai fel rhan o'r Strategaeth a Ffafrir neu ymgyngoriadau'r Cynllun Adnau.

## 3.2. Pryd gall Safleoedd gael eu Cyflwyno?

3.2.1. Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol yw'r adeg briodol i gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol. Bydd y safleoedd a gyflwynir rhwng 6 Tachwedd ac 18 Rhagfyr yn helpu i lywio'r broses o baratoi'r Strategaeth a Ffafrir ac yn sicrhau 'blaenlwytho' llwyddiannus wrth baratoi'r CDLIA.

3.2.2. Mae modd cyflwyno safleoedd fel rhan o'r ymgynghori ar y Strategaeth a Ffafrir a'r Cynllun Adnau. Fodd bynnag, bydd angen i safleoedd o'r fath gael eu halinio â'r Strategaeth a Ffafrir/â strategaeth y Cynllun Adnau, a bydd angen cyflwyno manylion pellach amdanynt. Mae'n annhebygol y bydd safleoedd sy'n dod gerbron wedi'r Strategaeth a Ffafrir yn cael eu hystyried i'w cynnwys yn y Cynllun.

## 3.3. At ba Ddefnyddiau gall Safleoedd gael eu Cyflwyno?

3.3.1. Mae modd cyflwyno safleoedd ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu, i'r canlynol:

- Tai;

- Cyflogaeth;
- Cyfleusterau cymunedol;
- Twristiaeth;
- Seilwaith Gwyrdd;
- Gwastraff;
- Addysg;
- Gofal cymdeithasol;
- Darparu lleiniau i Sipsiwn a Theithwyr;
- Manwerthu;
- Hamdden;
- Ynni Adnewyddadwy;
- Bioamrywiaeth;
- Seilwaith Trafnidiaeth;
- Mwynau; a
- Diogelu

## 3.4 Sut mae Cyflwyno Safleoedd?

3.4.1. Dylid cyflwyno safleoedd gan ddefnyddio ein Porth Ymgynghori ar-lein[10].

3.4.2. Bydd y Cyngor hefyd yn derbyn cyflwyniadau:

- Trwy e-bost i: ldp@npt.gov.uk
- Trwy'r post at: Mr Ceri Morris, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, Cyngor

[10] Ar gael yn: https://neath-porttalbot-consult.objective.co.uk/kse/

Castell-nedd Port Talbot, Y Ceiau, Ffordd Brunel, Parc Ynni Baglan, Castell-nedd. SA11 2GG

### Ymgynghori ar y Strategaeth a Ffafrir a'r Cynllun Adnau

3.4.3 Bydd gofyn bod safleoedd sy'n cael eu cyflwyno fel rhan naill ai o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir (a adwaenir hefyd fel yr ymgynghoriad ar y Cynllun Cyn-Adnau) neu'r ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau, yn cyflwyno'r safleoedd ar ffurf sylwadau ar y Cynllun. Mae modd cyflwyno sylwadau trwy'r Porth Ymgynghori, e-bost neu'r post. Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu fel rhan o'r ymgynghori ar y Strategaeth a Ffafrir a'r Cynllun Adnau.

## 3.5 Ystyriaethau pwysig cyn cyflwyno

3.5.1 Sylwer os gwelwch yn dda:

- Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â'r profion cadernid[11], mae'n hanfodol bod y tir a ddyrannwyd ar gyfer datblygu yn y CDLlA yn bodloni amcanion a gofynion y Cynllun, ei fod yn addas i'w ddatblygu, a bod modd i hynny ddigwydd.

- Nid oes gwarant y bydd cynnig Safle Ymgeisiol yn cael ei dderbyn ac yn dod yn rhan o'r Cynllun.

- Nad yw cynnwys Safle Ymgeisiol ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn awgrymu bod safle'n addas i'w ddatblygu.

- Gellir cyflwyno safleoedd sydd heb eu nodi ar gyfer datblygu yn y Strategaeth a Ffafrir yn ddiweddarach yn y broses o baratoi'r Cynllun.

- Hyrwyddwr y safle yn unig fydd yn gyfrifol am wneud y gwaith technegol perthnasol i gefnogi cynnwys safle yn y Cynllun, gan gynnwys yr holl gostau ariannol.

- Bydd y broses o asesu Safleoedd Ymgeisiol yn digwydd dros nifer o flynyddoedd, felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newid

---

[11] 14 Fel y nodwyd yn Nhabl 7 DPM

i fanylion cyswllt y tirfeddiannwr a hyrwyddwr y safle. Gallai methu â gwneud hynny olygu bod y safle'n cael ei hidlo allan o'r Asesiad Safleoedd Ymgeisiol.

- Yn unol â'r canllawiau cenedlaethol (DPM, (Rhifyn 3, 2020, Paragraff 5.1 a Thablau 18 a 22)), ni fydd dyraniadau safle presennol yn CDLl CNPT sydd heb symud ymlaen yn ôl y disgwyl (h.y. sydd wedi'u datblygu'n rhannol/sydd heb eu cyflwyno ar gyfer datblygu) yn cael eu 'treiglo ymlaen' yn awtomatig i'r CDLlA. Bydd safleoedd yn cael eu 'treiglo ymlaen' dim ond lle ceir tystiolaeth glir i ddangos bod yr amgylchiadau wedi newid yn sylweddol. Fel rhan o'r Alwad gychwynnol am Safleoedd Ymgeisiol, lle mae gan y Cyngor wybodaeth gyswllt a ddiweddarwyd, byddwn ni'n cysylltu â hyrwyddwyr safleoedd o'r fath ac yn eu hannog i ailgyflwyno eu safleoedd fel rhan o'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol. Bydd angen darparu gwybodaeth fanwl ynghylch cyflwyno (gweler yr adran Canllawiau Cyflawnadwyedd).

3.5.2. Er mwyn osgoi cyflwyno safleoedd sy'n amhriodol yn eu hanfod, carem awgrymu darllen y Fethodoleg fanwl ar gyfer Asesu Safleoedd Ymgeisiol, er mwyn deall y broses hidlo.

## 3.6 Cyhoeddusrwydd i Safleoedd Ymgeisiol

3.6.1 Bydd y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i broses y Safleoedd Ymgeisiol yn unol â'r CC.

# 4 Gwybodaeth sy’n Ofynnol i Gyflwyno

4.1.1 Mae gofyn bod pob Safle Ymgeisiol yn cyflwyno Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol, y dylid ei llenwi mor gyflawn a chywir â phosibl. Bydd y Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol ar gael ar wefan y Cyngor ac yn y Lleoliadau Adnau cyn yr Alwad am Safleoedd.

**Sylwer y bydd methu â chyflwyno Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol a gwblhawyd yn briodol yn golygu na fydd y Safle Ymgeisiol yn cael ei chofrestru.**

4.1.2. Bydd gofyn hefyd bod safleoedd yn darparu gwybodaeth am ddichonoldeb.

- Bydd gofyn bod safleoedd preswyl a rhai a arweinir gan gyflogaeth sy’n darparu mwy na 50 o unedau preswyl neu 1.0ha+ o dir cyflogaeth yn cyflwyno asesiad dichonoldeb gan ddefnyddio’r DVM, ac yn darparu templed dichonoldeb lefel uchel i gyd-fynd â hynny.

- Bydd gofyn bod safleoedd preswyl a rhai a arweinir gan gyflogaeth sydd o dan y trothwyon uchod yn cyflwyno holiadur dichonoldeb, i ddangos bod modd i’w safle gael ei gyflawni’n ddichonadwy. Bydd gofyn bod safleoedd sy’n cael eu hyrwyddo at ddefnyddiau eraill yn darparu tystiolaeth gymesur o ddichonoldeb er mwyn dangos bod y safle’n ddichonadwy ac yn gyflawnadwy.

4.1.3. Bydd angen hefyd i safleoedd sy’n cael eu hyrwyddo trwy ymgyngoriadau’r Strategaeth a Ffafrir/Cynllun Adnau ddarparu gwerthusiad dichonoldeb manwl (gweler y Bennod ar ‘Safleoedd a Gyflwynwyd yn ystod y Strategaeth a Ffafrir a’r Cynllun Adnau’ i gael rhagor o wybodaeth).

4.1.4. Dylai unrhyw astudiaethau, adroddiadau a gwybodaeth arall sy’n berthnasol i gefnogi cyflwyno’r Safleoedd Ymgeisiol gael eu darparu yn ogystal. Dylai hyn fod yn gymesur â natur a graddfa’r datblygiad a gynigir.

# 5. Cwblhau'r Ffurflen Safleoedd Ymgeisiol

5.0.1. Cynhyrchwyd y canllawiau canlynol i helpu hyrwyddwyr safleoedd i gwblhau'r Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol mor gynhwysfawr â phosibl. Mae'r canllawiau'n dilyn fformat y Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol, a fydd ar gael ar wefan y Cyngor ac yn y lleoliadau Adnau yn ystod yr Alwad am Safleoedd a'r ymgyngoriadau ar y Strategaeth a Ffafrir a'r Cynllun Adnau.

5.0.2. Ni fydd yr holl gwestiynau'n berthnasol i bob cynnig, felly gadewch unrhyw rannau amherthnasol yn wag.

## 5.1. Adran A: Manylion Cyswllt

5.1.1. Mae'r adran hon yn gofyn bod yr wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu:

- Enw;
- Cyfeiriad;
- E-bost; a
- Rhif ffôn

5.1.2 Dylid darparu manylion cyswllt asiantau yn yr adran hon os yw asiant yn hyrwyddo'r safle ar ran tirfeddiannwr neu ddatblygwr.

5.1.3 Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn gofyn bod egwyddorion, hawliau a rhwymedigaethau diogelu data yn cael eu cymhwyso i unrhyw brosesu data personol (data mae'r Cyngor yn ei gasglu, ei gadw a'i ddadansoddi) fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLIA. Bydd y manylion cyswllt sy'n cael eu darparu yn cael eu defnyddio ar gyfer pob gohebiaeth yn y dyfodol, i sicrhau bod hyrwyddwyr safleoedd yn cael gwybodaeth reolaidd am broses y CDLIA ac i ofyn am unrhyw wybodaeth ychwanegol ynghylch Safleoedd Ymgeisiol. Gofynnir i chi nodi a ydych chi'n fodlon i ni gadw eich manylion cyswllt ar gyfer y dibenion hyn.

## 5.2. Adran B: Lleoliad y Safle

5.2.1. Mae'r adran hon yn gofyn bod yr wybodaeth ganlynol yn cael ei chyflwyno:

- Cyfeiriad y safle, gan gynnwys y côd post;
- Cyfeirnod grid;
- Map sylfaen yr Arolwg Ordnans (OS); ac
- Arwynebedd y safle (Ha)

5.2.2. Mae modd cyrchu cyfeirnodau grid trwy ddefnyddio'r wefan Cyfeirnodau Grid[12].

5.2.3. Dylid darparu map sylfaen OS wedi'i ddiweddaru wrth gyflwyno'r safle. Dylai'r cynllun wneud y canlynol:

- Cynnwys gwybodaeth ddigonol i sicrhau bod modd adnabod y safle'n hawdd;
- Rhoi ymyl coch o amgylch y tir sy'n cael ei hyrwyddo, ac ymyl glas o amgylch tir arall sydd dan reolaeth perchennog y safle/hyrwyddwr y safle; a
- Bod wedi'i luniadu ar raddfa gydnabyddedig (megis 1:2,500 neu 1:1,250)

5.2.4. Sylwer na fydd safle'n cael ei brosesu heb gynllun lleoliad priodol.

5.2.5. Mae modd prynu cynlluniau o wefan y Porth Cynllunio[13].

5.2.6. Dylid mesur arwynebedd safle mewn hectarau (ha). Dylid darparu enw safle (megis Safle A/Safle 1) os ydych chi'n gwneud cyflwyniadau lluosog ar gyfer yr un safle, gan y bydd hynny'n helpu i osgoi unrhyw ddryswch. Cofiwch, os gwelwch yn dda, os bydd y safle'n llwyddo i symud ymlaen at gael ei ddyrannu yn y cynllun adnau drafft, y dylid darparu enw safle y gellir cyfeirio ato.

[12] Ar gael yn: https://gridreferencefinder.com/
[13] Ar gael yn: https://www.planningportal.co.uk/homepage/4/buy_a_planning_map

## 5.3. Adran C: Defnydd Presennol

5.3.1. Mae'r adran hon o'r Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol yn gofyn bod gwybodaeth yn cael ei darparu ynghylch defnydd presennol y safle a hyd a lled tir glas/tir llwyd ar y safle.

### Defnydd Presennol o'r Safle

5.3.2. Dylid darparu gwybodaeth ynghylch naill ai:

- Defnydd presennol y safle, er enghraifft safle arddangos ceir neu gae amaethyddol; neu
- Ddefnydd diweddaraf y safle, er enghraifft, ysgol.

5.3.3. Os oes mwy nag un defnydd, gofynnir i chi nodi'r holl ddefnyddiau a hyd a lled pob defnydd o ran arwynebedd net a gros. Os yw'n briodol, gofynnir i chi ddarparu map yn amlinellu hyd a lled pob defnydd.

### Tir Glas/Tir Llwyd

5.3.4. Dylid darparu gwybodaeth ynghylch hyd a lled y tir glas/tir llwyd (gros a net mewn hectarau).

5.3.5. Er mwyn canfod cyfran y tir glas/tir llwyd, dylid ystyried y diffiniad canlynol o dir a ddatblygwyd yn flaenorol yn PCC (Argraffiad 11, 2021, tt.37):

*"Ystyr tir a ddatblygwyd o'r blaen (a elwir hefyd yn dir llwyd) yw tir lle mae neu lle roedd strwythur parhaol (ac eithrio adeiladau amaethyddol neu goedwigaeth) a seilwaith wyneb sefydlog cysylltiedig. Mae cwrtil (gweler nodyn 1 isod) y datblygiad wedi'i gynnwys, ynghyd ag adeiladau amddiffyn a thir a ddefnyddiwyd i gloddio am fwynau a gwaredu gwastraff (gweler nodyn 2 isod) lle nad oes darpariaeth ar gyfer adfer wedi'i gwneud trwy weithdrefnau rheoli datblygu.*

*Mae'r canlynol wedi'u hepgor o'r diffiniad:*

- *tir ac adeiladau sy'n cael eu defnyddio at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth ar hyn o bryd;*
- *tir nad yw wedi'i ddatblygu o'r blaen, er enghraifft, parciau, meysydd hamdden, cyrsiau golff a rhandiroedd, er y gall yr ardaloedd hyn gynnwys nodweddion trefol megis llwybrau, pafiliynau ac adeiladau eraill;*
- *tir lle mae olion unrhyw strwythur neu weithgarwch wedi dod yn rhan o'r dirwedd dros amser fel y gellir ystyried yn rhesymol ei fod yn rhan o'r amgylchedd naturiol;*
- *tir sy'n gyfoethog ei rywogaethau a'i fioamrywiaeth ac a allai fod yn 'gynefin adran 7' neu gael ei glustnodi fel tir ag iddo werth cadwraeth natur; a*
- *thir a ddatblygwyd o'r blaen sydd wedi'i roi at ddefnydd amwynder.*

*Nodiadau:*

*1. Mae cwrtil y safle yn cael ei ddiffinio fel tir a ddatblygwyd o'r blaen hefyd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylai holl ardal y cwrtil gael ei hailddatblygu. Er enghraifft, os bydd olion adeilad ond yn cwmpasu cyfran o safle, a bod gweddill y safle'n dir agored (megis ysbyty), fel arfer ni ddylai'r safle i gyd gael ei ddatblygu i ffin y cwrtil. Dylai'r awdurdod cynllunio wneud dyfarniad ynghylch cynllun y safle yn y cyd-destun hwn, gan gofio ystyriaethau cynllunio eraill megis polisïau i warchod mannau agored, caeau chwarae neu ddatblygiad yng nghefn gwlad. Dylent ystyried ffactorau megis sut mae'r safle'n ymwneud â'r byd o'i gwmpas a gofynion ar gyfer mannau agored, lleiniau clustogi ac ardaloedd wedi'u tirlunio.*

*2. Mae hyn yn ymwneud â mwynau a safleoedd gwastraff na fyddent yn cael eu hadfer ar ôl eu defnyddio fel arall gan nad oedd y caniatâd cynllunio a oedd yn eu caniatáu yn cynnwys amod adfer. Bydd pob safle arall o'r fath yn cael ei adfer i statws safle maes glas yn sgil amod cynllunio. Dylid cydnabod fodd bynnag na cheid adeiladu datblygiad adeiledig ar safleoedd tirlenwi amheryglus heb fuddsoddiad sylweddol a gwaith monitro tymor hir.*

*3. Gall gwerth o ran cadwraeth natur gael ei bennu drwy asesiadau Seilwaith Gwyrdd".*

5.3.6. Os yw'r safle'n cynnwys tir glas a thir llwyd, gofynnir i chi ddangos arwynebedd y naill a'r llall (gros a net, ha) a map yn amlinellu'r tir glas a'r tir llwyd.

## 5.4. Adran D: Defnydd a Gynigir

5.4.1 Mae'r adran hon o'r Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol yn gofyn bod gwybodaeth yn cael ei darparu ynghylch y canlynol:

- Y math o ddefnydd rydych chi'n dymuno i'r safle gael ei ystyried ar ei gyfer o ran datblygu (er enghraifft, preswyl neu gyflogaeth); a
- Graddfa'r datblygiad (er enghraifft, 25 o gartrefi neu adeilad 2,500 msg o

swyddfeydd)

5.4.2 Lle cynigir defnyddiau cymysg (er enghraifft, 200 o gartrefi, 1 siop a lle agored), dylid darparu cyfuniad manwl, gan gynnwys nifer a/neu faint pob defnydd. Dylid darparu map gyda manylion defnyddiau cymysg lle bo hynny'n briodol.

## Preswyl

5.4.3 Yn achos safleoedd preswyl, dylid llywio capasiti'r safle yn ôl y canlynol:

- Egwyddor Creu Lleoedd Strategol Cymru'r Dyfodol[14] (tt.66) ar gyfer datblygiadau newydd mewn ardaloedd trefol, sef ceisio sicrhau dwysedd o 50 annedd o leiaf fesul hectar (net), gyda dwyseddau uwch mewn lleoliadau mwy canolog a hygyrch[15].
- Gofynion dwysedd CDLl presennol CNPT:

*Tabl 4.: Gofynion Dwysedd CDLl CNPT*

| Ardal Strategaeth[16] | Ardal Leol | Gofyniad o ran Dwysedd (Anheddau fesul Hectar) |
|---|---|---|
| Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir | Ardaloedd Gofodol Castell-nedd a Phort Talbot | 35 |
| Ardal Strategaeth y Cymoedd | Ardaloedd Gofodol Cwm Afan, Dyffryn Aman, Cwm Dulais, Cwm Nedd, Cwm Tawe a Phontardawe | 30 |

[14] Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/future-wales-the-national-plan-2040.pdf
[15] Wrth ystyried lleoliadau canolog a hygyrch, dylid ystyried hybiau trafnidiaeth presennol (gorsafoedd trenau, gorsafoedd bysiau, cyffyrdd strategol) a hybiau trafnidiaeth i'r dyfodol (e.e. ystyried Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru, fydd yn dod i'r amlwg). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: https://gov.wales/swansea-bay-and-west-wales-metro.
[16] Roedd y map cyfyngiadau rhyngweithiol yn cynnwys manylion yr ardaloedd strategaeth a'r ardaloedd gofodol

### Cynllun a Arweinir gan Dai Fforddiadwy

5.4.4 Bydd angen i gynlluniau a arweinir gan dai fforddiadwy nodi cyfran y tai fforddiadwy y cynigir eu darparu.

5.4.5 Sylwer, yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol (PCC[17] (Rhifyn 11, 2021, Paragraff 4.2.32)), y dylai cynlluniau a arweinir gan dai fforddiadwy gynnwys o leiaf 50% sy'n dai fforddiadwy.

### Cynlluniau Unigryw a Hunanadeiladu

5.4.6 Os ydych chi'n cynnig cynllun unigryw neu hunanadeiladu, nodwch hynny yn yr adran hon, os gwelwch yn dda.

5.4.7 Cynlluniau hunanadeiladu yw cynlluniau lle mae rhywun yn adeiladu eu cartref eu hunain. Gall lefel y mewnbwn amrywio, gyda pherson naill ai'n gwneud llawer o'r gwaith eu hunain neu'n cyflogi adeiladydd/contractiwr i'w wneud ar eu rhan. Mae canllawiau ynghylch cynlluniau hunanadeiladu, gan gynnwys prynu tir ac eiddo, cynllunio'r prosiect ac ariannu ar gael ar wefan y Porth Cynllunio[18][19].

5.4.8 Cynlluniau adeiladu unigryw yw cynlluniau hunanadeiladu sy'n cynnwys datblygwr mewn rhyw fodd. Efallai bydd unigolyn yn comisiynu adeiladydd i godi tŷ unigryw ar eu cyfer, neu bod grŵp o gartrefi'n cael eu hadeiladu gan ddatblygwr lle gall yr unigol ddylunio'r cartref yn ôl eu manylebau eu hunain. Mae canllawiau ynghylch adeiladu tai unigryw ar gael ar y wefan Adeiladu Cartrefi[20].

### Llety Myfyrwyr

5.4.9 Os ydych chi'n cynnig llety myfyrwyr, nodwch hynny yn yr adran hon, os gwelwch yn dda.

5.4.10 Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch ynghylch natur y cynnig a

---

[17] Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11_0.pdf
[18] Ar gael yn: https://www.planningportal.co.uk/info/200130/common_projects/49/self-build_homes
[19] Sylwer bod hyn yn wahanol i gynllun Hunanadeiladu Cymru LlC (https://selfbuild.wales/ ).
[20] 23 Ar gael yn: https://www.homebuilding.co.uk/advice/what-is-custom-build

graddfa'r datblygiad, os gwelwch yn dda, gan gynnwys, er enghraifft:

- A oes bwriad i'r llety gael ei ddarparu ar ffurf Tai Amlfeddiannaeth (HMOs) neu lety i fyfyrwyr a adeiladwyd at y diben;
- Nifer y gwelyau a gynigir; a
- Natur unrhyw gyfleusterau a gynigir.

**Llety Arbenigol**

5.4.11 Gofynnir i chi nodi yn yr adran hon os ydych chi'n hyrwyddo safle ar gyfer llety arbenigol (tai i bobl hŷn, rhai ag anghenion cefnogi, llety arbenigol arall). Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch y math o lety arbenigol a graddfa'r llety arbenigol.

**Cymunedol**

5.4.12 Gofynnir i chi nodi yn yr adran hon os ydych chi'n cynnig safle at ddefnyddiau cymunedol.

5.4.13 Yng ngoleuni'r cyfyngiadau ariannol presennol ar y Cyngor, sylwer ei fod yn annhebygol y byddai'r Cyngor yn barod i ymgymryd â pherchnogaeth neu reolaeth unrhyw gynigion o'r fath a awgrymir gan unigolion preifat/hyrwyddwyr safleoedd preswyl. O ganlyniad, dylid darparu gwybodaeth ynghylch y canlynol:

- Beth sy'n cael ei hyrwyddo;
- Pam mae'n cael ei hyrwyddo;
- Sut bydd yn cael ei ariannu; a
- Sut bydd yn gweithredu ar ôl agor.

5.4.14 Os rhagwelir y bydd cyngor cymuned neu grŵp lleol yn rhedeg y cyfleuster, rhowch dystiolaeth o drafodaethau ynghylch hynny a thystiolaeth sy'n dangos cytundeb.

## Gofal iechyd/Addysg

5.4.15 Oherwydd natur y cyllido a’r cynllunio ar gyfer cyfleusterau gofal iechyd ac addysg, dim ond gan y canlynol y dylid hyrwyddo cyfleusterau gofal iechyd/addysg i’w datblygu:

- Gan ddarparwr gofal iechyd/addysg; neu
- Gan hyrwyddwr safle lle mae ganddynt dystiolaeth i ddangos bod gan ddarparwr gofal iechyd neu addysg ddiddordeb (dylid darparu tystiolaeth i ddangos hyn).

## Masnachol/Manwerthu/Cyflogaeth

5.4.16. Dylai cyflwyniadau masnachol, manwerthu a/neu gyflogaeth ddarparu amcangyfrif o’r arwynebedd llawr a gynigir mewn metrau sgwâr (msg).

## Twristiaeth

5.4.17. Dylai cyflwyniadau ar gyfer datblygu twristiaeth ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl ynghylch y datblygiad arfaethedig, gan gynnwys er enghraifft:

- Natur y cynnig (e.e. bythynod gwyliau, parc antur, parc thema etc.)
- Graddfa pob elfen (e.e. 20 o gabanau gwyliau, bwyty 500msg etc.)

## Ynni Adnewyddadwy

5.4.18 Dylai cynigion ynni adnewyddadwy ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl ynghylch math a natur y cynnig. Dylid darparu amcangyfrif yn ogystal o’r capasiti cynhyrchu Megawatt (MW).

5.4.19 Dylid ystyried Polisi 17 ‘Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig’ a Pholisi 18 ‘Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel ag Arwyddocâd Cenedlaethol’ yn Cymru’r Dyfodol. Ceir manylion yr Ardaloedd a Ragaseswyd ar gyfer Ynni Gwynt ar fap cyfyngiadau rhyngweithiol y Cyngor.

## Safleoedd Gwastraff – trin a/neu waredu

5.4.20 Dylai cynigion ar gyfer safleoedd gwastraff ddarparu gwybodaeth ynghylch cyfaint a chapasiti'r safle mewn metrau ciwbig. Dylid darparu gwybodaeth yn ogystal ynghylch y math o wastraff, er enghraifft a yw'n beryglus neu beidio.

## Llety Sipsiwn a Theithwyr

5.4.21 Dylai cynigion ar gyfer Llety Sipsiwn a Theithwyr ddarparu gwybodaeth ynghylch:

- Nifer y lleiniau a/neu'r meysydd a gynigir; a
- Natur unrhyw gyfleusterau cymunedol/ddefnyddiau eraill a gynigir

5.4.22 Mae Canllawiau Cymorth Cynllunio Cymru ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys Siewmyn Teithiol, yn darparu arweiniad pellach ar gyfer cyflwyno Llety Sipsiwn a Theithwyr[21].

## Seilwaith

5.4.23 Dylid darparu gwybodaeth ynghylch natur y ddarpariaeth seilwaith a gynigir.

5.4.24 Yn achos cynlluniau a arweinir gan dai a chyflogaeth, dylid darparu gwybodaeth ynghylch a yw darparu'r seilwaith wedi'i gynnwys yn y Datganiad Dichonoldeb, ac os felly, a yw hynny'n dangos bod modd i'r datblygiad ddarparu'r lefel seilwaith a gynigir mewn modd dichonadwy.

## Bioamrywiaeth / Seilwaith Gwyrdd / Diogelu

5.4.25. Nid oes gofyn bod safleoedd sy'n cael eu hyrwyddo o safbwynt bioamrywiaeth, seilwaith gwyrdd a/neu ddiogelu ond yn darparu gwybodaeth ynghylch y math o ddefnydd rydych chi'n dymuno i'r safle gael ei ystyried ar ei gyfer a rheolaeth a chynnal a chadw yn y dyfodol.

5.4.26 Gall safleoedd sy'n cael eu hyrwyddo ar gyfer bioamrywiaeth, seilwaith gwyrdd neu ddiogelu gynnwys safleoedd sy'n cael eu hyrwyddo ar gyfer y

[21] Ar gael yn: https://planningaidwales.org.uk/gtguide/

canlynol:

*Tabl 5 Safleoedd sy'n cael eu Hyrwyddo ar gyfer Bioamrywiaeth/Seilwaith Gwyrdd/Diogelu*

| | |
|---|---|
| Cerrig Camu neu Goridorau Byd Natur | Nodweddion tirwedd lleol sy'n bwysig ar gyfer bioamrywiaeth, megis coed, coetir, perthi a ffiniau caeau eraill, cyrsiau dŵr, gwlyptiroedd a phyllau a lonydd gwyrdd |
| Amwynderau glas | Mannau hamdden anffurfiol, mannau glas cymunedol yng nghanol tai ac o'u cwmpas a meysydd pentref |
| Mannau agored naturiol a lled-naturiol | Coetir, prysgwydd, glaswelltir, gwlyptir, dŵr agored a rhedegog |
| Lletemau Glas | Dynodiadau lleol yw Lletemau Glas sydd i bob pwrpas yn rhannu'r un diben â Pharthau Glas, ond sy'n cael eu hadolygu fel rhan o'r gwaith o baratoi CDLlau amnewid. Gellir eu defnyddio i greu parth clustogi rhwng yr anheddiad a dynodiadau statudol a diogelu golygfeydd pwysig i mewn ac allan o'r ardal.<br><br>Mewn Lletem Las ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn datblygiad sy'n amhriodol mewn perthynas â dibenion y dynodiad.<br><br>(PCC, Paragraffau 3.64-3.78). |

5.4.27 Os nad chi yw tirfeddiannwr safleoedd o'r fath, dylid darparu gwybodaeth ynghylch perchnogaeth y tir, gan gynnwys lle bo modd, wybodaeth ynghylch bwriadau'r tirfeddiannwr i gynnig y safle ar gyfer defnyddiau o'r fath.

5.4.28 Wrth gyflwyno safle, dylai fod rhesymau clir, gyda thystiolaeth, dros wneud hynny, ac ni ddylai gael ei weld yn syml fel cyfle i atal darn o dir rhag cael ei ddatblygu. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ac esbonio pam, os ydych i safle gael ei eithrio rhag cael ei ddatblygu, beth sy'n haeddu cael ei ddiogelu, a gallai fod gennych nifer o resymau am y farn honno. Dylid darparu tystiolaeth briodol o hynny.

5.4.29 Wrth gynnig safleoedd i fod yn Lletemau Glas, dylid ystyried polisi cynllunio cenedlaethol (PCC (Rhifyn 11, 2021, Paragraff 3.64)) sy'n dweud na ddylid defnyddio cynigion ar gyfer Lletemau Glas ond lle mae angen amlwg am ddiogelu'r ffurf drefol ac ni fyddai mecanweithiau polisi amgen, megis ffiniau aneddiadau, yn ddigon cadarn.

**Mwynau**

5.4.30. Dylai safleoedd a gynigir at ddefnyddiau mwynau nodi'r math o adnodd sydd i'w echdynnu, faint ohono fydd, a'r cyfnod o amser a ragwelir.

## 5.5 Adran E: Hanes Cynllunio

5.5.1 Mae'r adran hon o'r Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol yn gofyn bod gwybodaeth yn cael ei darparu ynghylch hanes cynllunio'r safle.

5.5.2 Dylid darparu'r wybodaeth ganlynol:

- Statws cynllunio cyfredol:
  - Ydy'r safle wedi'i ddyrannu yn y CDLl presennol/ydy'r safle'n rhan o ddyraniad safle presennol?
  - Oes gan y safle fantais caniatâd cynllunio sydd eisoes yn bodoli? Oes gan y safle ganiatâd cynllunio a ddaeth i ben?
- Trosolwg o hanes cynllunio perthnasol; ac
- A gynhaliwyd trafodaethau cyn-ymgeisio hyd yma? (Dylid cynnwys y rhif cyfeirnod cyn-ymgeisio lle mae'n hysbys)

5.5.3 Rhowch gynifer o fanylion â phosibl lle bo hynny'n berthnasol/briodol, gan gynnwys er enghraifft cyfeirnod cais cynllunio perthnasol a/neu gyfeirnod dyrannu safle.

5.5.4. Lle bo hynny'n berthnasol/briodol, gofynnir i chi nodi a gynhaliwyd unrhyw arolygon safle perthnasol, a darparu copi o arolygon/adroddiadau perthnasol.

5.5.5 Mae modd cael hyd i hanes cynllunio trwy ddefnyddio'r Cyfleuster Chwilio am

Geisiadau Cynllunio ar wefan y Cyngor: https://planningonline.npt.gov.uk/online-applications/

## 5.6 Adran F: Cyfyngiadau Sylfaenol

5.6.1 Mae'r adran hon o'r Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol yn gofyn bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno ynghylch cyfyngiadau sylfaenol.

5.6.2 Dylai hyrwyddwyr safleoedd ddefnyddio map cyfyngiadau rhyngweithiol y Cyngor, sydd ar gael ar y wefan (https://www.npt.gov.uk/cs) i'w helpu i lenwi'r adran hon o'r Ffurflen Safleoedd Ymgeisiol. Mae modd defnyddio map rhyngweithiol Archwilio Cadw ar gyfer Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol Cymru, i wirio a oes unrhyw safleoedd hanesyddol/treftadaeth o fewn y safle ymgeisiol arfaethedig (https://www.archwilio.org.uk/her/chi1/arch.html?county=NeathPortTalbot&lang=eng .

5.6.3 Gofynnir i chi nodi faint o'r safle sy'n cael ei gwmpasu gan y cyfyngiadau sylfaenol canlynol:

- Ramsar; a/neu
- Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA); a/neu
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA); a/neu Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG); a/neu
- Ddosbarthiad Tir Amaethyddol Dosbarth 1 (ALC); a/neu Heneb Cofrestredig (SM); a/neu
- Barc a Gerddi Hanesyddol; a/neu
- Ddatblygiad a gynigiwyd gan y sector preifat at dir comin[22]; a/neu
- Bod y safle'n cynnig datblygiad hynod o fregus (TAN15 (Rhagfyr 2021)) oddi

[22] Yn absenoldeb gwybodaeth bellach am gyflawnadwyedd, mae'n debygol na fydd y cynnig yn ddichonadwy. Ni fydd safleoedd a hyrwyddir gan CCNPT ar dir comin yn cael eu heithrio ar y sail hon, gan fod eu perchnogaeth gyhoedddus yn darparu cyfrwng cyflawni.

mewn i Barth Llifogydd 3[23].

Diffiniwyd datblygiad hynod o fregus yn y diweddariad i TAN15, sydd bellach wedi'i ohirio, fel "*datblygiad lle mae gallu preswylwyr i benderfynu a ydynt yn dymuno derbyn y risgiau i fywyd ac eiddo sy'n gysylltiedig â llifogydd, neu eu gallu i reoli canlyniadau risg o'r fath, yn gyfyngedig. Mae hefyd yn cynnwys y defnyddiau diwydiannol hynny lle byddai risg gysylltiedig i'r cyhoedd a'r amgylchedd dŵr petai'r safle'n gorlifo*".

Mae'r mathau o ddatblygiad yn cynnwys:

- Pob safle preswyl (gan gynnwys gwestai, safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a meysydd carafanau a gwersyllfeydd);
- Ysgolion a sefydliadau gofal plant, colegau a phrifysgolion; Ysbytai a meddygfeydd;
- Datblygiadau diwydiannol arbennig o fregus (e.e. elfennau cynhyrchu a dosbarthu pŵer gorsafoedd pŵer, newidyddion, gweithfeydd cemegol, llosgyddion), a safleoedd gwaredu gwastraff;
- Gwasanaethau brys, gan gynnwys: gorsafoedd ambiwlans, gorsafoedd tân, gorsafoedd heddlu, canolfannau rheoli, depots argyfwng; ac
- Adeiladau a ddefnyddir yn gysgod mewn argyfwng os bydd llifogydd.

## 5.7 Adran G: Cyflawnadwyedd

5.7.1 Mae'r adran hon o'r Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol yn gofyn bod gwybodaeth yn cael ei darparu ynghylch cyflawnadwyedd.

5.7.2 Dylid darparu'r wybodaeth ganlynol er mwyn dangos cyflawnadwyedd y safle ar gyfer pob safle preswyl a chyflogaeth. Ar gyfer pob defnydd arall, gofynnir i chi ddefnyddio'r cwestiynau isod/yn y Ffurflen Cyflwyno Safleoedd

[23] At ddibenion cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol, bydd y Cyngor yn defnyddio TAN15 (Rhagfyr 2021) a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, yn unol â'r dull gweithredu a nodwyd yn y Llythyr gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 15 Rhagfyr 2021.

Ymgeisiol i lywio ymateb i gyflawnadwyedd dangosol y safle. Sylwer bod polisi a chanllawiau cenedlaethol yn pwysleisio pwysigrwydd dangos cyflawnadwyedd, ac mai ‘a gyflawnir y cynllun’ yw’r trydydd Prawf Cadernid[24].

- Manylion cyswllt perchnogion y tir: Enw, cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn pob un o berchnogion y tir
- A yw’r safle’n eiddo i un perchennog neu nifer o berchnogion?
  - Os yw’r safle’n eiddo i fwy nag un perchennog, gofynnir i chi ddarparu map yn amlinellu perchnogaeth y tir
- A yw holl berchnogion y tir yn barod i werthu eu tir ar gyfer datblygiad o’r math ac ar y raddfa a ragwelir?
- Ai hyrwyddwr y safle yw perchennog/perchnogion presennol y tir, neu ai gweithredu ar ran y perchennog/perchnogion presennol y mae (h.y. asiant)?
- Neu os nad yw hyrwyddwr y safle yn berchennog presennol ar y tir nac yn gweithredu ar eu rhan, a oes gan hyrwyddwr y safle gytundeb opsiwn neu gyfatebol i brynu’r safle gan y perchennog/perchnogion?
- A oes unrhyw anawsterau mae angen eu goresgyn er mwyn cyflawni’r safle?
  - Er enghraifft, lleiniau pridwerth, cyfamodau cyfyngol, cyfyngiadau hysbys o ran seilwaith a/neu gyfleustodau. Darparwch gynifer o fanylion â phosibl.
- Sut bwriedir cyflawni’r safle?
  - Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl, os gwelwch yn dda, er enghraifft: Gan berchnogion y tir fel prosiect hunanadeiladu
  - Gan berchnogion y tir (datblygwr)
  - Gwerthu i ddatblygwr sydd â chytundeb opsiwn i brynu’r safle ar ôl ei

[24] Ceir rhagor o wybodaeth am Brofion Cadernid yn y DPM (Rhifyn 3, 2020, tt.165-167).

ddyrannu

  - Gwerthu i ddatblygwr (anhysbys ar hyn o bryd) ar ôl ei ddyrannu
  - Gwerthu i ddatblygwr (anhysbys ar hyn o bryd) ar ôl sicrhau caniatâd cynllunio etc.

- A fu unrhyw ddiddordeb gan ddatblygwyr yn y safle hyd yma?
  - Os bu diddordeb gan ddatblygwyr yn y safle, rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl, os gwelwch yn dda. Er enghraifft:
  - Ydy'r safle'n eiddo i ddatblygwr?
  - Oes gan ddatblygwr gytundeb opsiwn ar y safle?
  - Oes datblygwr wedi mynegi diddordeb mewn prynu'r safle (ac os felly pa mor hir yn ôl oedd hynny)?
  - Ydy'r safle wedi cael ei farchnata ar gyfer datblygu?
  - A fu unrhyw ddiddordeb mewn marchnata'r safle ar gyfer datblygu? Etc.
- A yw'r safle mewn perchnogaeth gyhoeddus?
- Os yw'r safle mewn perchnogaeth gyhoeddus:
  - A nodwyd y safle mewn strategaeth waredu a gyhoeddwyd; a/neu
  - A oes penderfyniad gan y Cyngor ynghylch a yw'r tir i gael ei gadw/werthu gan y corff cyhoeddus
- Amserlenni cyffredinol ar gyfer cyflawni:
  - Gofynnir i chi ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys er enghraifft:
  - A oes bwriad i gyflwyno'r safle i'w ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun (2021-2036)
  - Amserlenni cyffredinol ar gyfer gwerthu'r tir, Ymgynghori cyn Ymgeisio

(PAC), sicrhau caniatâd cynllunio, amserau arweiniol a chyfraddau ehangu

  - A oes bwriad i gyflwyno'r safle mewn un cyfnod neu nifer o gyfnodau

- Dichonoldeb: Gweler yr adran isod

- Os oedd y safle wedi'i ddyrannu yn y CDLl presennol ac nid yw wedi cael ei gyflwyno fel y bwriadwyd, a/neu os oes ganddo ganiatâd cynllunio sydd wedi dod i ben, rhowch y canlynol, os gwelwch yn dda:

  - Esboniad clir ynghylch pam nad yw'r safle wedi cael ei gyflwyno ar gyfer datblygu hyd yma;

  - Gwybodaeth ynghylch beth sydd wedi newid er mwyn i'r safle gael ei gyflwyno ar gyfer datblygu yn ystod cyfnod y cynllun yma (h.y. llain pridwerth wedi'i phrynu, cyfyngiadau dichonoldeb wedi'u goresgyn etc.); a

  - Thystiolaeth i ddangos bod ymrwymiad clir i gyflwyno'r safle ar adeg yn ystod cyfnod y Cynllun, gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, lifoedd ariannu a nodwyd/neilltuwyd

- Os oes gan y safle ganiatâd cynllunio eisoes, gofynnir i chi roi cymaint o wybodaeth â phosibl ynghylch yr hyn a ragwelir o ran cyflwyno'r safle, gan gynnwys:

  - Cyfeirnod y caniatâd cynllunio sy'n bodoli; a

  - Pham nad yw'r safle wedi cael ei gyflwyno hyd yma; ac

  - A ydych chi'n bwriadu cyflwyno'r safle ar gyfer y datblygiad y rhoddwyd y caniatâd cynllunio sy'n bodoli ar ei gyfer; a

  - Gwybodaeth ynghylch beth sydd wedi newid er mwyn i chi gyflwyno'r safle i'w ddatblygu yn awr; ac

  - Os nad ydych yn bwriadu cyflwyno'r safle, ydych chi'n bwriadu

cyflwyno’r safle ar gyfer defnyddiau eraill? Os felly, rhowch amcan o’r amserlen a chymaint o wybodaeth â phosibl, os gwelwch yn dda, er mwyn i ni ddeall pryd rydych chi’n bwriadu cyflwyno’r safle i’w ddatblygu

5.7.3 O ran dyraniadau safle presennol, mae’r canllawiau cenedlaethol (DPM (Rhifyn 3, 2020, Paragraff 5.1, Tabl 18 a Thabl 22)) yn nodi’n eglur na ddylai dyraniadau safle presennol sydd heb symud ymlaen yn ôl y disgwyl gael eu ‘treiglo ymlaen’ yn awtomatig i’r CDLIA. Yn unol â’r arweiniad a roddir yn y llawlyfr, bydd safleoedd yn cael eu ‘treiglo ymlaen’ dim ond lle ceir tystiolaeth glir i ddangos bod newid sylweddol yn yr amgylchiadau. Dylid darparu cymaint o wybodaeth â phosibl i ddangos cyflawnadwyedd safleoedd o’r fath. Bydd yr wybodaeth hon hefyd yn helpu i lywio’r taflwybrau tai a chyflogaeth a chynllun cyflawni seilwaith y CDLIA.

5.7.4 Mae safleoedd mewn perchnogaeth gyhoeddus yn cynnwys tir sy’n eiddo i’r Cyngor, LlC, CNC, Byrddau Iechyd ac Adrannau eraill y Llywodraeth.

5.7.5 Mae GDPR yn gofyn bod egwyddorion, hawliau a rhwymedigaethau diogelu data yn cael eu cymhwyso wrth brosesu unrhyw ddata personol (data mae’r Cyngor yn ei gasglu, ei gadw a’i ddadansoddi) fel rhan o’r broses o baratoi’r CDLIA. Bydd manylion cyswllt sy’n cael eu darparu yn yr adran hon yn cael eu hychwanegu at gronfa ddata Safleoedd Ymgeisiol y Cyngor. Hefyd bydd manylion cyswllt yn cael u hychwanegu at Gronfa Ddata Ymgynghori ar y Polisi Cynllunio er mwyn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i chi am broses y CDLIA ac unrhyw waith polisi arall sy’n dod i’r amlwg (h.y. paratoi canllawiau cynllunio atodol). Gofynnir i chi nodi a yw holl berchnogion y tir yn barod i’w manylion cyswllt gael eu cadw i’r dibenion hyn.

## 5.8 Adran H: Dichonoldeb

5.8.1 Gweler uchod a’r Nodiadau Cyfarwyddyd ynghylch Dichonoldeb.

# 6. Safleoedd a Gyflwynir fel rhan o’r Strategaeth a Ffafrir a’r Cynllun Adnau

6.1.1. Bydd gofyn bod safleoedd sy’n cael eu hyrwyddo yn ystod yr ymgynghori ar naill ai’r Strategaeth a Ffafrir neu’r Cynllun Adnau yn cyflwyno’r canlynol:

- Ffurflen Safleoedd Ymgeisiol; a
- Cyfnod 1 – Asesiad Cychwynnol Safleoedd Ymgeisiol; a
- Cyfnod 2 – Asesiad Manwl Safleoedd Ymgeisiol.

6.1.2. Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu ynghylch sut mae cyflwyno safleoedd fel rhan o’r ymgyngoriadau ar y Strategaeth a Ffafrir a’r Cynllun Adnau.

# Atodiadau

## Atodiad A: Addasrwydd Safleoedd

A.1 Yn ogystal â meini prawf yr ACI, rhoddir sylw hefyd i'r canlynol er mwyn canfod addasrwydd y safle:

- Adeiladau sydd â Phwysigrwydd Lleol;
- Cydnawsedd â defnyddiau cymdogol (golau, sŵn);
- Ardaloedd Cadwraeth a'u lleoliadau;
- Seilwaith rheilffordd neu gludo nwyddau nad yw'n cael ei ddefnyddio;
- Defnydd presennol y safle;
- Lletem las;
- Halogi tir;
- Ansefydlogrwydd tir;
- Ardaloedd Diogelu Mwynau;
- Ardal a Aseswyd ymlaen llaw ar gyfer Datblygu Gwynt;
- Ardaloedd tawel;
- Mynediad diogel i'r safle ar gyfer pob defnyddiwr;
- Dilyniant chwilio'r safle (gweler PCC, Paragraffau 3.41-3.48);
- Dull gweithredu dilyniannol o ran polisi cenedlaethol (gweler Polisi 6 Cymru'r Dyfodol a PCC Paragraffau 4.3.18-4.3.24) ar gyfer manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus;
- SuDS;
- Dŵr (gan gynnwys llygru dŵr daear);
- Lluniwyd gyda golwg ar y gymuned;

- A fyddai datblygiad yn arwain at golli meysydd chwarae presennol a/neu fannau ar gyfer hamdden?;

- A fyddai'r safle'n arwain at ailddatblygu tir a ddatblygwyd yn flaenorol (gweler PCC, tt. 37)?; a'r

- Arfordir heb ei ddatblygu;

A.2 Sylwer y gellir cymryd meini prawf eraill i ystyriaeth fel rhan o'r gwaith asesu. Lle digwydd hyn, nodir hynny'n glir yn y gwaith Asesu Safleoedd Ymgeisiol.

## Atodiad B: Darparwyr Seilwaith

B.1 Bydd y Cyngor yn ymgysylltu â'r canlynol lle bo hynny'n briodol.

| Math o Seilwaith | Asiantaeth Gyflwyno |
|---|---|
| Bioamrywiaeth ac Ecoleg | • Arolwg Daearegol Prydain<br>• Cadw<br>• Canolfan Ecoleg a Hydroleg<br>• Fforwm Bioamrywiaeth Castell-nedd Port Talbot<br>• Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt CCNPT<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| Cyfleusterau Cymunedol | • Tîm Gwasanaethau Cymunedol CCNPT |
| Addysg | • Addysg CCNPT<br>• Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot |
| Perygl llifogydd a rheoli dŵr arwyneb | • CNC<br>• SAB a Datblygu Priffyrdd CCNPT<br>• LlC |
| Seilwaith Gwyrdd a Mannau Hamdden | • Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt CCNPT<br>• Polisi Cynllunio CCNPT (Seilwaith Gwyrdd a Mannau Hamdden)<br>• Chwarae CCNPT<br>• CNC |
| Iechyd | • Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Treftadaeth | • Cadw<br>• Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent |

| Math o Seilwaith | Asiantaeth Gyflwyno |
|---|---|
| | • Swyddog Dylunio Amgylcheddol a Threftadaeth CCNPT<br>• Y Comisiwn Brenhinol ar Henebion Hynafol a Hanesyddol Cymru |
| Yr Amgylchedd Naturiol | • Arolwg Daearegol Prydain<br>• Glandŵr Cymru<br>• Yr Awdurdod Glo<br>• Dŵr Cymru<br>• Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg/Gwent<br>• Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt CCNPT<br>• Priffyrdd a Draenio CCNPT<br>• CNC |
| Trafnidiaeth | • 2 B's<br>• First Buses Ltd. Great First Western<br>• Network Rail Infrastructure Ltd (Western and Wales) Property<br>• Network Rail Ltd<br>• Teithio Llesol CCNPT<br>• Gwasanaethau Priffyrdd a Draenio CCNPT<br>• Hawliau Tramwy CCNPT<br>• Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) Trafnidiaeth i Gymru<br>• LlC |
| Cyfleustodau | • British Gas<br>• BT Group Plc<br>• Pencadlys BT Open Reach<br>• Centrica Energy |

| Math o Seilwaith | Asiantaeth Gyflwyno |
|---|---|
| | • Dŵr Cymru<br>• Ecotricity<br>• EDF Energy<br>• EE<br>• Good Energy<br>• Hutchinson 3G UK Ltd.<br>• Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>• Y Grid Cenedlaethol<br>• Addysg CCNPT<br>• O2<br>• Cyngor Chwaraeon Cymru<br>• Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru<br>• SSE/ SWALEC<br>• Tesco Mobile LMT<br>• Transco<br>• United Utilities<br>• Utilita Energy<br>• Virgin Media<br>• Vodaphone Group Plc<br>• Western Power<br>• Wales and West Utilities Ltd<br>• Gwasanaeth Ambiwlans Cymru |
| Gwastraff ac Ailgylchu | • Gwasanaethau Gwastraff a Chymdogaeth CCNPT |

B.2. Yn ogystal â’r uchod, lle bo hynny’n briodol, bydd y Cyngor yn ymgysylltu â’r prif grwpiau rhanddeiliaid, grwpiau ymgynghori penodol a chyrff cyffredinol ac ymgynghori eraill y ceir eu manylion yn y CC.

Sganiwch y cod QR
am wybodaeth bellach